**Cyngor Sir y Fflint**

# Dweud eich dweud!

# Ymgynghoriad ar Gyllideb 2025/26

**Rhagfyr 2024**

## Cynnwys

Pwrpas yr ymgynghoriad 3

Pryd oedd pobl yn cael dweud eu dweud 3

Sut oedd pobl yn cael dweud eu dweud 3

Y cwestiynau 3

Nifer y bobl a gymerodd ran 3

Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

1. Deall yr heriau 4
2. Pwysigrwydd gwasanaethau 4
3. Treth y Cyngor 6
4. Cynhyrchu Incwm 6
5. Rheoli pwysau galw 7
6. Blaenoriaethu ein gwasanaethau 8

Adborth

7.1 Cyllid Cenedlaethol 9
7.2 Treth y Cyngor 9
7.3 Gweithlu / strwythur / aelodau etholedig y Cyngor 9
7.4 Gweithio gydag eraill 10
7.5 Asedau'r Cyngor 10
7.6 Cynllunio strategol 10
7.7 Caffael a chontractau 10
7.8 Cynhyrchu incwm 11
7.9 Twf economaidd 11
7.10 Trawsnewid digidol 11
7.11 Ymyrraeth gynnar 12
7.12 Arbedion effeithlonrwydd 12
7.13 Blaenoriaethu gwasanaeth 12
7.14 Addysg 13
7.15 Datblygiad tai / preswyl 13
7.16 Gwasanaethau Cymdeithasol 13
7.17 Gwasanaethau Stryd 14
7.18 Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu 14
7.19 Polisi cenedlaethol 14

Y broses ymgynghori a pha grwpiau o bobl gymerodd ran 15

## Pwrpas yr ymgynghoriad

I amlinellu'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor wrth fantoli ei gyllideb ar gyfer 2025/26.

I geisio barn ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig i breswylwyr, ynghyd â'u safbwyntiau am strategaethau i bontio'r bwlch yn y gyllideb – nid gan Gyngor Sir y Fflint yn unig, ond gan Gynghorau eraill ledled y DU.

I gefnogi aelodau wrth iddynt ystyried dewisiadau i geisio mantoli'r cyfrifon.

## Pryd oedd pobl yn cael dweud eu dweud:

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 15 Hydref 2024 a daeth i ben ar 24 Tachwedd 2024.

## Sut oedd pobl yn cael dweud eu dweud:

Gallai pobl roi eu barn drwy lenwi holiadur byr ar-lein.

Cafodd preswylwyr nad oeddynt yn gallu gwneud yr arolwg ar-lein eu cyfeirio at un o bum Canolfan Sir y Fflint yn Cysylltu, lle'r oedd cefnogaeth ar gael.

## Y cwestiynau:

Gofynnwyd saith cwestiwn ymgynghoriad, yn ogystal â chwestiynau statudol monitro cydraddoldeb.

## Nifer y bobl a gymerodd ran:

Cymerodd 3,480 o bobl ran.  Ni wnaeth pawb a ddechreuodd yr arolwg fynd ymlaen i gwblhau'r holl gwestiynau.
Cynhwysir pob ymateb a roddwyd cyn rhoi'r gorau i'r arolwg yn yr adroddiad cryno hwn.

## Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

### 1. Deall yr heriau

Cadarnhaodd 92% o'r bobl a gymerodd ran eu bod wedi darllen yr wybodaeth ynglŷn â heriau'r gyllideb ar y wefan.

### 2. Pwysigrwydd gwasanaethau


Pan ofynnwyd i bobl nodi pa wasanaethau'r Cyngor oedd yn bwysig iddynt, Priffyrdd (90%), Gwastraff ac Ailgylchu (86%) ac Addysg (80%) oedd yr ymatebion mwyaf poblogaidd.

Ymatebion Lleihau Carbon oedd wedi eu rhannu fwyaf hafal, gyda 31% yn dweud ei fod yn bwysig iawn / pwysig, 39% yn dweud nad oedd yn bwysig / ddim yn bwysig o gwbl, a 30% heb farn gref yr un ffordd neu'r llall.

Wrth ystyried ymatebion i'r cwestiwn hwn, mae'n bwysig dweud na ofynnwyd i bobl nodi'r hyn oedd fwyaf pwysig iddynt mewn trefn, dim ond nodi a oedd gwasanaeth yn bwysig iddynt ai peidio.

Mae Ffigur 1 yn dabl sy'n dangos yr holl ymatebion.


*Ffigur 1: Pa mor bwysig yw'r gwasanaethau a restrir isod i chi?*



## 3. Treth y Cyngor

Yr oedd mwyafrif y bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn anghytuno â defnyddio Treth y Cyngor i gau'r bylchau cynyddol yng nghyllidebau Cynghorau, nad oedd wedi eu hariannu'n ddigonol.


*Ffigur 2: Cytuno â defnyddio Treth y Cyngor i bontio cyfrannau mwy o danwariant gan y Llywodraeth.*




## 4. Cynhyrchu Incwm


Cafwyd cefnogaeth gref i'r Cyngor gynhyrchu mwy o incwm.

*Ffigur 3: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau isod ynglŷn â chynhyrchu incwm?*



## 5. Rheoli pwysau galw


Yr oedd cefnogaeth i'r Cyngor fabwysiadu mesurau a oedd â'r potensial i leihau'r galw ar wasanaethau.



## 6. Blaenoriaethu ein gwariant

Gwahoddwyd pobl i fynegi i ba raddau yr oeddynt yn cytuno / anghytuno â'r dewisiadau y mae Cynghorau eraill yn eu hystyried i leihau gwariant.

*Ffigur 4: Nid ydym yn awgrymu mai'r rhain yw'r pethau y byddwn o reidrwydd yn eu gwneud yma yn Sir y Fflint. Maent yn cael eu darparu fel enghreifftiau o beth mae eraill yn ei ystyried. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dulliau hyn?*



## 7. Adborth

Rhoddwyd y cyfle hefyd i breswylwyr ddarparu sylwadau ac adborth ychwanegol. Rhannodd cyfanswm o 1,363 o bobl eu barn a'u safbwyntiau, sydd wedi eu crynhoi isod:

### 7.1 Cyllid Cenedlaethol

O'r rheiny a ddarparodd adborth, yr oedd pobl eisiau gweld cyllid tecach gan Lywodraeth Cymru (LlC) i Sir y Fflint, gyda disgwyliad bod y Cyngor yn mynd ati i geisio a phwyso am setliad cyllid tecach. Byddai setliadau cyllid LlC ar gyfer y tymor hwy hefyd yn fuddiol.

### 7.2 Treth y Cyngor

Yr oedd teimlad cryf ym mwyafrif yr ymatebion na ddylid cynyddu Treth y Cyngor er mwyn pontio'r bwlch yn y gyllideb. Teimlid yn gyffredinol bod preswylwyr yn teimlo straen costau byw cynyddol, ac o ganlyniad i danwariant blwyddyn ar ôl blwyddyn yng nghyllidebau Cynghorau, mae gofyn iddynt dalu mwy am lai.

Teimlai rhai y byddai gwthio preswylwyr i fwy o galedi ariannol, o ganlyniad i gynnydd yn Nhreth y Cyngor, yn wrthgynhyrchiol – gallai arwain at gasglu llai o Dreth y Cyngor a chynyddu'r galw ar wasanaethau'r Cyngor.

Yr oedd nifer lai o'r bobl a ddarparodd adborth yn teimlo y dylid cynyddu Treth y Cyngor i bontio'r bwlch.

### 7.3 Gweithlu / strwythur / aelodau etholedig y Cyngor

Yn creu'r adborth mwyaf, yr oedd yr awgrymiadau'n cwmpasu:

- Symleiddio haenau / strwythurau rheoli
- Lleihau cyflog a buddion
- Rheoli perfformiad
- Gweithio hybrid
- Gosod gwasanaethau ar gontractau allanol
- Cadw / dod â gwasanaethau'n ôl yn fewnol
- Lleihau'r defnydd o ymgynghorwyr / gweithwyr asiantaeth neu roi'r gorau i'w defnyddio

Yr oedd canfyddiad cryf bod y Cyngor yn cyflogi gormod o reolwyr sy'n cael gormod o gyflog, ac, yn gyffredinol, bod gormod o weithwyr y Cyngor yn cael eu gordalu, yn derbyn gormod o fanteision a buddion a phensiynau chwyddedig.

Yr oedd cred bod angen gwella'r modd y rheolir perfformiad, ac y dylid defnyddio prosesau meddwl trwy systemau ac archwilio er mwyn symleiddio prosesau a gweithdrefnau i gael gwared â gwastraff.

Yr oedd safbwyntiau croes i'w gilydd ynglŷn â gweithio hybrid – yr oedd rhai pobl eisiau gweld gweithwyr yn dychwelyd i amgylchedd swyddfa i wella perfformiad, tra'r oedd eraill yn awgrymu gweithio hybrid fel datrysiad i ostwng costau uchel gwresogi adeiladau a thrydan.

Teimlai rhai y dylid rhoi'r gorau i osod gwaith ar gontract allanol i'r sector preifat / masnachol – ynghyd â chyflogi gweithwyr asiantaeth ac ymgynghorwyr – ac ystyrid y cyfan yn ddewisiadau drud y gallai gweithlu presennol y Cyngor ei wneud yn rhatach ac yn effeithlon yn fewnol. Yr oedd gan eraill farn wahanol y gallai allanoli fod yn ddewis mwy costeffeithiol ac effeithlon.

Yn debyg i safbwyntiau a fynegwyd ynglŷn â strwythur a gweithlu'r Cyngor, cafwyd adborth sylweddol yn ymwneud â rôl aelodau etholedig, gyda theimlad cryf bod gormod o aelodau etholedig a oedd yn derbyn gormod o dâl am eu gwasanaethau a bod angen gwella'r modd y rheolid perfformiad.

### 7.4 Gweithio gydag eraill

Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

- Datblygu ac annog amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli – gan rymuso pobl leol i ofalu am gymunedau / gwasanaethau lleol.
- Manteisio ar y cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd sydd ar gael yn Sir y Fflint drwy weithio gyda busnesau a chymunedau lleol i greu datrysiadau arloesol.
- Gweithio gyda cholegau lleol i ddarparu cyfleoedd gwaith ymarferol a fyddai o fudd i'r cwricwlwm ac i'r Cyngor.
- Mwy o weithio cydlynol a chydgysylltiedig rhwng gwasanaethau'r Cyngor.
- Uno â Chynghorau eraill.

### 7.5 Asedau'r Cyngor

Yr oedd sylwadau am y defnydd o asedau'r Cyngor yn cynnwys:

- Gwerthu tir / adeiladau sydd dros ben ar werth y farchnad yn llawn, yn berthnasol i'w defnydd yn y dyfodol.
- Cynhyrchu incwm drwy brydlesu / llogi cyfleusterau cyhoeddus.
- Gwneud y defnydd mwyaf / cael y buddion mwyaf o adeiladau i'w gwneud yn amlddefnydd ar gyfer gwahanol wasanaethau / asiantaethau i greu canolbwyntiau cymunedol.

### 7.6 Cynllunio Strategol

Yr oedd teimlad bod yn rhaid i benderfyniadau yn seiliedig ar ddata ynghyd â chynaliadwyedd hirdymor fod yn ystyriaethau allweddol parthed ym mha le y dylid buddsoddi cyllid.

Yr oedd yna deimlad cyffredinol hefyd nad oedd cynllunio byrdymor yn arbennig o effeithlon nac effeithiol.

Yr oedd pryderon ynglŷn â'r penderfyniad i ddod â gwasanaethau llyfrgelloedd a hamdden yn ôl yn fewnol ar amser pan oedd y sefyllfa ariannol mor enbyd, a sut y gallai'r penderfyniad hwnnw effeithio ar wasanaethau yn y dyfodol.

## 7.7 Caffael a chontractau

Yr oedd safbwyntiau ynglŷn â chaffael a chontractau'n cynnwys:

Gwella prosesau caffael contractau i sicrhau tendro cystadleuol a'r gwerth gorau am arian – nid y rhataf yw'r gorau bob amser, ac mae yna risg hefyd o dalu gormod.

Cryfhau gweithdrefnau i sicrhau y cyflawnir gwaith o ansawdd uchel, yn unol â'r gofynion ac ar amser – a chyflwyno a chasglu cosbau pan nad yw gwaith yn cyrraedd y nod.

Rhoi'r gorau i ddyfarnu contractau i gyflenwyr / contractwyr allanol os gellir gwneud y gwaith yn fwy effeithlon ac effeithiol yn fewnol.

Ymchwilio a chyflawni'r gwerth ychwanegol mwyaf posibl drwy gaffael, ynghyd â chyfleoedd i gynnwys cymalau gwerth cymdeithasol; er enghraifft, datblygwyr tai'n cyfrannu at gostau'r galw uwch ar wasanaethau, e.e. casglu gwastraff, cynnal a chadw ffyrdd, parciau a mannau amwynder – a gorfodi'r cymalau hynny.

## 7.8 Cynhyrchu incwm

Yr oedd y syniadau a gyflwynwyd i gynhyrchu incwm yn cynnwys:

- Buddsoddi i greu mentrau masnachol mewn meysydd fel rheoli gwastraff, ynni adnewyddadwy a thai fforddiadwy, ac ailfuddsoddi'r elw i gymunedau.
- Cynhyrchu'r incwm mwyaf posibl yn yr holl wasanaethau y telir amdanynt er mwyn cynorthwyo i gynnal y gwasanaethau hynny na ellir codi tâl amdanynt.
- Ystyried yr holl wasanaethau y gallai'r Cyngor eu cynnig ar bris fforddiadwy – gan ddefnyddio graddfa symudol / prisiau deinamig – a rhoi cyhoeddusrwydd eang iddynt.
- Defnyddio cyfrannu torfol a / neu gael statws elusennol dielw i alluogi cyfraniadau ar gyfer prosiectau / mentrau cymunedol.
- Gorfodaeth gryfach a chasglu dirwyon am beidio â chydymffurfio pan fo'n berthnasol.
- Mynd ar drywydd arian sy'n ddyledus i'r Cyngor a'i adennill.

## 7.9 Twf economaidd

Awgrymiadau ar gyfer twf economaidd:

- Buddsoddi i wneud y defnydd gorau o atyniadau sy'n denu pobl i'r sir ac sydd â'r potensial i gynhyrchu incwm i'r Cyngor, e.e. twristiaeth, marchnadoedd, digwyddiadau, ynghyd ag amddiffyn y rheiny sydd wedi eu sefydlu eisoes.
- Buddsoddi yn y sir i'w gwneud yn rhywle lle mae pobl eisiau byw, gweithio, aros ac ymweld ag o.
- Cyflymu prosesau a fydd yn dod â buddsoddiad i'r sir, e.e. cynllunio, trwyddedu, ac ati.

### 7.10 Trawsnewid digidol

Yr oedd rhai'n ystyried y byddai'n fuddiol archwilio a chyflwyno technoleg newydd a ffyrdd newydd o weithio i drawsnewid gwasanaethau, gostwng costau a gwella darpariaeth gwasanaethau. Fodd bynnag, yr oedd eraill yn rhybuddio yn erbyn gwneud hyn yn ddull cyffredinol, yn arbennig gan ystyried pobl na allant ddefnyddio cyfleusterau digidol neu'r rheiny y mae eu hanghenion yn atal hygyrchedd digidol.

### 7.11 Ymyrraeth Gynnar

O'r bobl hynny a wnaeth sylwadau, yr oedd yna farn bod *'atal yn well na gwella'*.

Mae gan fuddsoddiad cynharach i arafu neu atal yr angen am gefnogaeth / gwaith mwy dwys y potensial i leihau'r angen am ddatrysiadau drutach yn y dyfodol.  Yr oedd y safbwyntiau hyn yn ymwneud ag ystod o wahanol wasanaethau, er enghraifft:

- Gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a phlant
- Addysg
- Gwytnwch cymunedol a chyfrifoldeb
- Atgyweirio / cynnal a chadw priffyrdd
- Gwastraff ac ailgylchu
- Parciau a mannau agored
- Gwasanaethau llyfrgelloedd a hamdden

### 7.12 Arbedion effeithlonrwydd

Teimlai rhai pobl y dylid ystyried / adolygu buddion darparu gwasanaethau'n fewnol cyn dyfarnu'r gwaith i gyflenwyr / contractwyr allanol, tra'r oedd eraill yn teimlo y byddai rhoi gwaith ar gontract i ddarparwyr allanol yn fwy costeffeithiol.

Teimlid bod lleihau gwastraff ledled holl wasanaethau'r Cyngor yn flaenoriaeth ar gyfer sicrhau gwerth am arian a chael gwared â biwrocratiaeth ormodol a dyblygu ymdrechion.

Yn ogystal â lleihau gwastraff, dylai arbedion maint / swmp-brynu hefyd fod yn ystyriaeth allweddol wrth brynu.

Grymuso gweithwyr i fod yn adeiladol a chreadigol wrth nodi a chyflawni arbedion ac arbedion effeithlonrwydd.

Adolygu darpariaeth gwasanaeth i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion preswylwyr / cwsmeriaid, gan ystyried technolegau newydd a chyfleoedd ar-lein.

Darparwyd awgrymiadau hefyd ynglŷn â sut i gadw costau cynnal a chadw cyffredinol yn is, e.e. diffodd goleuadau a gwres neu eu troi'n is, a chyfathrebu drwy ddulliau electronig gymaint â phosibl i ostwng costau postio.

Awgrymwyd y gellid cwtogi ar gyfieithiadau i'r Gymraeg fel ffordd o ostwng gwariant. Nodwyd bod rhai ymatebion gan siaradwyr Cymraeg, ac / neu'r oeddynt yn gefnogol o'r ymdrech i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ond teimlent nad oedd hyn, efallai, yn wasanaeth hanfodol ar adegau o galedi ariannol.  Yr oedd y ffyrdd o gyflawni hyn yn

amrywio o roi'r gorau i gyfieithu'n gyfan gwbl i storio dewisiadau iaith ein preswylwyr a chyfathrebu gyda hwy yn unol â hynny.

### 7.13 Blaenoriaethu gwasanaeth

O'r bobl hynny a wnaeth sylwadau, yr oedd rhai o'r farn y dylid dychwelyd i ganolbwyntio ar wasanaethau statudol / sylfaenol yn unig, a dylid gostwng gwariant ar wasanaethau nad ydynt yn rhai hanfodol neu eu hatal dros dro i bontio'r bwlch cyllidebol.

Yr oedd rhai o'r farn y dylid amddiffyn gwasanaethau rheng flaen fel Addysg, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Stryd rhag toriadau.

Cafwyd safbwynt y dylai polisi cenedlaethol i wella cyfraddau ailgylchu gael ei atal dros dro. Teimlid bod y posibilrwydd o ddirwyo Cynghorau am beidio â chydymffurfio yn wrthgynhyrchiol.

Teimlid hefyd y dylid gwario llai neu roi'r gorau i wario ar fesurau lleihau carbon.

### 7.14 Addysg

Yr oedd y sylwadau a dderbyniwyd a oedd yn ymwneud yn benodol ag addysg yn cynnwys:

- Diogelu cyllidebau ysgolion.
- Angen mwy o fuddsoddiad yn narpariaeth ADY / AAA.
- Mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl.
- Lleihau / rhoi'r gorau i gludiant am ddim i'r ysgol.

### 7.15 Datblygiad tai / preswyl

Yr oedd y sylwadau a dderbyniwyd a oedd yn ymwneud yn benodol â datblygiad tai / preswyl yn cynnwys:

- Gwella'r modd y cesglir rhent am dai Cyngor, ynghyd â chyflwyno cyfraniadau gan ddeiliaid contract (tenantiaid) tuag at waith atgyweirio / gwelliannau.
- Dod â thai Cyngor gwag yn ôl i gyflwr addas ar gyfer eu hailosod yn gyflymach – i gynorthwyo gyda digartrefedd ac i gynyddu incwm.
- Edrych ar bethau y mae Cynghorau eraill wedi eu gwneud i gyflwyno datrysiadau arloesol ar gyfer digartrefedd.
- Rhoi'r gorau i ysgwyddo costau am wasanaethau a ddylai gael eu hariannu'n uniongyrchol gan ddatblygwyr tai.
- Awgrymodd rhai pobl y dylid adeiladu mwy o dai ar gyfer pobl ddigartref ac i gynhyrchu mwy o incwm o dreth y Cyngor, ond yr oedd eraill o'r farn y byddai rhoi'r gorau i adeiladu tai yn atal twf poblogaeth Sir y Fflint ac o gymorth i leihau'r galw ar wasanaethau.

### 7.16 Gwasanaethau Cymdeithasol

Yr oedd y sylwadau a dderbyniwyd a oedd yn ymwneud yn benodol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys:

- Lobïo dros gael gwared â chap gofal cymdeithasol a chodi cyfraddau mwy realistig am y gofal a ddarperir.
- Pwyso am gyllid ar y cyd lle mae cyfrifoldeb cyfartal rhwng y Cyngor a'r GIG i ddarparu gwasanaethau, e.e. gwasanaethau iechyd cymunedol / gofal parhaus.
- Casglu'r holl arian sy'n ddyledus i'r Cyngor am y gwasanaethau gofal y mae'n eu darparu, yn cynnwys yr hyn sy'n ddyledus gan y GIG.
- Mwy o fuddsoddiad mewn gweithwyr cymdeithasol i gael pobl o ysbytai ac i gael gofal.

### 7.17 Gwasanaethau Stryd

Yr oedd y sylwadau a dderbyniwyd a oedd yn ymwneud yn benodol â'r Gwasanaethau Stryd yn cynnwys:

- Diogelu cyllidebau gwastraff ac ailgylchu / amlder y gwasanaeth.
- Canolbwyntio ar wasanaethau hanfodol / statudol yn unig.
- Buddsoddi yn y gwaith o atgyweirio / cynnal a chadw ffyrdd i atal dirywiad pellach a chostau uwch o bosibl yn y dyfodol.
- Adolygu oriau agor Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a symleiddio prosesau ar gyfer ailgylchu deunyddiau – i annog pobl i ailgylchu mwy a lleihau tipio anghyfreithlon.
- Casgliadau bin du cartrefi – yr oedd rhai pobl yn erbyn newid i wasanaeth casglu pob tair wythnos, tra'r oedd eraill o blaid newid i wasanaeth casglu pob pedair wythnos.
- Cynyddu ffioedd ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn statudol, e.e. gwastraff gardd.
- Diffodd / lleihau goleuadau stryd drwy'r nos.
- Cwtogi amlder torri glaswellt.
- Adolygu gwasanaethau cludiant cyhoeddus i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau.

### 7.18 Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu

Yr oedd rhai'n croesawu'r cyfle i gael dweud eu dweud ar heriau'r gyllideb. Fodd bynnag, yr oedd teimlad cyffredinol y gellid gwneud mwy i wella cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â phreswylwyr ar ystod eang o bynciau.

Amlygwyd bod cyfathrebu mewnol rhwng gwasanaethau yn faes i'w wella hefyd.

### 7.19 Penderfyniadau Polisi Cenedlaethol

Derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn ymwneud â phenderfyniadau polisi cenedlaethol, ac yr oeddynt yn cynnwys:

- Gwario ar gyflwyno terfynau cyflymder 20mya ledled Cymru.
- Budd-daliadau a chredyd cynhwysol.
- Prydau ysgol am ddim.
- Cardiau bws am ddim.

- Presgripsiynau GIG am ddim.
- Mewnfudo.

## Y broses ymgynghori a pha grwpiau o bobl gymerodd ran

**Pwy oedd yn gallu cymryd rhan:**

Yr oedd yr ymgynghoriad ar gael ar-lein ac yn agored i bawb.

Aelodau Etholedig; Cynghorau Tref a Chymuned; gweithlu'r Cyngor; rhwydweithiau proffesiynol, cymunedol a chydraddoldeb; y cyfryngau cymdeithasol a'r wasg.

**Sut yr ymgysylltwyd â phobl:**


Cyfathrebwyd â'r canlynol drwy e-bost i ofyn am gefnogaeth i ehangu ein gohebiaeth:


- Cynghorwyr Cyngor Sir y Fflint
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Rhwydweithiau proffesiynol / grwpiau defnyddwyr gwasanaeth:
    - Gweithlu Cyngor Sir y Fflint
    - Tenantiaid tai
    - Ysgolion
    - Pobl hŷn
    - Pobl ifanc
    - Teuluoedd
    - Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol
    - Busnesau
    - Grwpiau cydraddoldeb


Cyfathrebwyd drwy'r canlynol hefyd:


- Gwefan y Cyngor – prif faner ar hafan y wefan, drwy'r canolbwynt ymgynghori ac ymgysylltu, a rhybuddion naid wrth ymweld â'r safle
- Prif faner ar Infonet y Cyngor (mewnrwyd)
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Gov Notify (e-bost newyddion electronig i danysgrifwyr)
- Datganiad i'r wasg, sylw yn y wasg


**Y grwpiau o bobl a gymerodd rhan**










Nodwch eich oedran drwy dicio'r bocs os gwelwch yn dda:
0.3%
1.5%
8.9%
21.8%
24.7%
21.1%
14.7%
7.0%
0 - 15 oed
16 - 24 oed
25 - 34 oed
35 - 44 oed
45 - 54 oed
55 - 64 oed
65 - 74 oed
75+ oed



Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?
3.6%
11.2%
23.4%
61.8%
Ydw
Nac ydw
Gwell gen i beidio â dweud
Arall (nodwch os dymunir)



Cyfeiriadedd Rhywiol: Pa un o’r opsiynau canlynol sy’n disgrifio orau’r ffordd rydych chi’n meddwl amdanoch chi eich hunan?
2.1%
1.5%
12.6%
0.4%
0.9%
82.5%
Heterorywiol - strêt
Dyn hoyw
Dynes hoyw - lesbian
Deurywiol
Gwell gen i beidio â dweud
Arall (nodwch os dymunwch)


A yw'ch hunaniaeth rhyw wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?
2.0%
8.0%
90.0%
Ydw
Nac ydw
Gwell gen i beidio â dweud


Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?
0.4%
2.3%
4.5%
39.6%
37.0%
15.2%
0.7%
0.2%
Cymro - Cymraes
Sais - Saesnes
Albanwr - Albanes
Gwyddelig (o Ogledd Iwerddon)
Prydeinig
Gwyddelig
Gwell gen i beidio â dweud
Arall (disgrifiwch)


Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un o'r opsiynau sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau.
Gwyn
2583
Cymysg – Gwyn / Du Caribïaidd
Cymysg – unrhyw gefndir arall
Du – Affricanaidd
Asiaidd - Indiaidd
Asiaidd - Pakistanaidd
Asiaidd – arall
Prefer not to say
3
3
2
5
0
3
1
4
2
0
1
3
3
176
30
Response Percent
Response Total


Beth yw eich crefydd?
2.2%
10.0%
47.3%
34.4%
5.2%
0.1%
0.1%
0.1%
0.3%
0.1%
Cristion (pob enwad)
Bwdhaidd
Mwslim
Iddewig
Hindŵ
Sikh
Anffyddiwr
Dim crefydd
Gwell gen i beidio â dweud
Arall (nodwch)


Mae Adran 6(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn dweud fod anabledd gan unigolyn os:a) Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, ab) Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i
7.9%
12.6%
79.5%
Ydw
Nac ydw
Gwell gen i beidio â dweud

Ydych chi'n gofalu am neu'n rhoi cymorth neu gefnogaeth i aelodau o'ch teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd un o'r canlynol: nam/salwch corfforol neu feddyliol hirdymor; neu problemau'n gysylltiedig â bod yn berson hŷn.

